PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: MIS MEHEFIN 2003 TAN FIS MAWRTH 2004

1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar eu cynnydd wrth gyflawni eu rhaglenni gwaith. Mae'n rhoi crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor yn y cyfnod rhwng ei sefydlu ym mis Mehefin 2003 a mis Mawrth 2004.

2. AELODAETH

2.1Ar hyn o bryd aelodau'r Pwyllgor yw: Alun Ffred Jones (Cadeirydd), Mick Bates, Glyn Davies, Jeff Cuthbert[1], Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Irene James, Carwyn Jones (y Gweinidog), Helen Mary Jones[2], Carl Sargeant a Brynle Williams.

3. CYLCH GWAITH A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones, sy'n cwmpasu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3.2 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn sôn am agweddau penodol ar waith y Pwyllgor o dan y teitlau hynny.

4. GWAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YMA

4.1 Yn ystod y cyfnod dan sylw cynhaliodd y Pwyllgor ddeg o gyfarfodydd ffurfiol.

Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

Ymchwiliad i'r agweddau ar gynllunio sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad

4.2 Ym mis Mehefin 2003 dechreuodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad ar effeithiolrwydd y polisïau cynllunio presennol o ran cefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad. Cymerwyd tystiolaeth gan y Gweinidog a'i swyddogion, cynrychiolwyr o awdurdodau

[1]Etholwyd Jeff Cuthbert i'r Pwyllgor yn lle Catherine Thomas ar 2 Mawrth 2004.
[2]Etholwyd Helen Mary Jones i'r Pwyllgor yn lle Rhodri Glyn Thomas ar 19 Tachwedd 2003.

cynllunio a thai lleol a'r gymuned academaidd. Cafodd y drafodaeth ei ehangu drwy'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgorau rhanbarth gan gynrychiolwyr awdurdodau cynllunio a thai lleol, cymdeithasau tai, syrfëwyr a gwerthwyr tai, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd.

4.3 Cyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad i'r Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror 2004 a gwnaeth argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym meysydd rolau a chyfrifoldebau, mecanweithiau cynllunio, gwybodaeth a data, yr iaith Gymraeg, datblygu cynaliadwy, y tir sydd ar gael, ac adnoddau[3]. Fe dderbyniodd y Gweinidog y cyfan ond un o argymhellion y Pwyllgor.

Ymchwiliad i dwbercwlosis mewn Gwartheg

4.4 Ym mis Tachwedd 2003 dechreuodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i reoli TB mewn Gwartheg a gostwng nifer yr achosion o TB mewn Gwartheg drwy ddefnyddio'r arferion ffermio gorau o ran iechyd a lles anifeiliaid.

4.5 Fe wnaeth y Pwyllgor wahodd amrywiaeth eang o gyrff ac unigolion sydd â diddordeb yn y mater i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a derbyniwyd 24 o ymatebion. Cafwyd tystiolaeth lafar gan nifer o gyrff allweddol ac fe ymwelodd yr Aelodau â fferm. Mae'r ymchwiliad yn parhau ac mae'r Pwyllgor yn bwriadu llunio ei gasgliadau yn ystod tymor yr haf 2004.

Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

4.6 Fe dderbyniodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd ynghylch diwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin Ewrop a'r goblygiadau ar gyfer Cymru[4].

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))

4.7 Cafodd y Pwyllgor adroddiad gan y Gweinidog ym mhob un o'r cyfarfodydd er mwyn galluogi'r Aelodau i graffu ar y polisïau a'r penderfyniadau y mae'n atebol amdanynt.

Adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

4.8 Ystyriwyd adolygiad strategol y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth[5] a'r adolygiad o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru[6].

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

---

[3] Gellir gweld yr adroddiad ar wefan y Cynulliad yn http://www.cymru.gov.uk/keypubassemenvplancou/content/reports-w.htm

[4] 16 Gorffennaf 2003 gweler papur EPC(2)-03-03(p2) a 24 Mawrth 2004 gweler papur EPC(2)-04-04 (p3). Nodir y sefyllfa ddiweddaraf hefyd yng ngwahanol adroddiadau'r Gweinidog.

5 4 Chwefror 2004, papur EPC (2)- 02-04(p 2) ac EPC(2)-02-04(mins).

6 24 Mawrth 2004, papur EPC (2)-04-04(p 1) ac EPC(2)-04-04(mins).

4.9 Rhoddodd y Pwyllgor adroddiad i'r cyfarfod llawn ar yr eitemau canlynol o ddeddfwriaeth[7]:

Is-ddeddfwriaeth

- Gorchymyn Sbwriel (Cosb Benodedig) Cymru 2003;
- Gorchymyn Cŵn yn Baeddu (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003;
- Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2004
- Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004;
- Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ayb) (Diwygio) (Cymru) 2004.

Deddfwriaeth sylfaenol

- Y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

4.10 Ym mis Chwefror 2004 cyflwynodd y Pwyllgor system ar gyfer mynd ati yn fwy rhagweithiol i graffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Caiff dogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â'r portffolio EPC ac a adneuwyd yn Senedd y DU eu hystyried bob yn ail cyfarfod.

Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

4.11 Nododd y Pwyllgor ei ddymuniadau ar gyfer y gyllideb yn ystod tymor yr haf[8], a rhoddodd ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref[9].

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))

4.12 Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at y Pwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

4.13 Ymgynghorwyd ag aelodau'r Pwyllgor a enwebwyd i ystyried penodiadau cyhoeddus ar nifer o benodiadau i gyrff cyhoeddus yn ystod y cyfnod dan sylw.

Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(v))

4.14 Ym mis Rhagfyr 2003, cyfeiriwyd y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol at y Pwyllgor (gweler paragraff 4.9).

Y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (Rheol Sefydlog 17)

[7] Gellir gweld copïau o'r adroddiadau ar y rhyngrwyd yn http://www.cymru.gov.uk/keypubassemenvplancou/content/reports-w.htm

[8] 25 Mehefin 2003, gweler EPC(2)-02-03(mins).

[9] 5 Tachwedd 2003, gweler EPC(2)-05-03(mins).

4.15 Cyfarfu tri phwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw er mwyn ystyried deg o achosion. Amgaeir adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod o fis Mehefin 2003 tan fis Mawrth 2004 yn **Atodiad 1**.

5. MATERION TRAWSBYNCIOL

Cyfle Cyfartal

5.1 Ar ran y Pwyllgor, cyfrannodd y Cadeirydd wybodaeth ffeithiol i adolygiadau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal o brif ffrydio cydraddoldeb yn y Cynulliad.

Datblygu cynaliadwy

5.2 Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried Cynllun Datblygu Cynaliadwy drafft y Cynulliad[10].

6. BLAENRAGLEN

6.1 Amgaeir blaenraglen waith strategol y Pwyllgor, y cytunwyd arni ar ddechrau'r cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef, yn **Atodiad 2**.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Mai 2004

[10] 3 Mawrth 2003, gweler EPC(2)-03-04 (p 1) ac EPC(2)-03-04(mins)

ATODIAD 1

PWYLLGORAU PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: MIS MEHEFIN 2003 TAN FIS MAWRTH 2004

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio (PPC) o fis Mehefin 2003 tan fis Mawrth 2004.

2 Aelodau

2.1 Etholir pob PPC o'r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (neu grŵp o apelau/geisiadau). Dewisir aelodau o'r Panel Penderfyniadau Cynllunio sydd yn cynnwys Aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a hyfforddwyd at y pwrpas.

3 Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau

3.1 Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn Rheol Sefydlog 17.

4 Cyfarfodydd

4.1 Ystyriwyd yr achosion a ganlyn yn ystod cyfnod yr adroddiad:

PPC 2003-1

- Apêl gynllunio, a chais ar gyfer gorchymyn cau priffyrdd, gan Tarmac Central Ltd er mwyn ymestyn Chwarel Burley Hill, Pant Du, Nercwys, yr Wyddgrug. **Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau i dderbyn Argymhelliad yr Arolygydd Cynllunio y dylid gwrthod yr apêl gynllunio a'r Gorchymyn Cau Priffyrdd.**

- Cais cynllunio gan Magnox Electric PLC a alwyd i mewn i adeiladu storfa wastraff ganolraddol newydd i gymryd lle storfeydd presennol; gostwng uchder hen adeiladau'r adweithyddion o 55 metr i 35 metr a'u hail-doi a'u hailorchuddio yng Ngorsaf Bwer Niwclear Trawsfynydd, Trawsfynydd, Gwynedd. **Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn unol â'r amodau a awgrymwyd gan yr Arolygydd Cynllunio.**

- Cais cynllunio gan Mr P Collins a Mrs B D Collins a alwyd i mewn ar gyfer annedd amaethyddol arfaethedig ar dir i'r de-ddwyrain o Fferm Pont Rhys Powell, Cwmyoy, y Fenni - rhif y daliad: 60 152 44. **Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau i dderbyn argymhelliad yr Arolygydd Cynllunio y dylid gwrthod caniatâd cynllunio.**

PPC 2004-1

- Apêl gynllunio gan Community Power Ltd i godi tyrbinau gwynt arfaethedig ar dir ar ffermydd Ton Mawr a Chastell, ger Margam, Port Talbot. **Penderfyniad: Cytunwyd y dylid gwrthod yr apêl.**

- Apelau cynllunio gan Bellway Homes ar gyfer datblygiad preswyl a man agored cyhoeddus cysylltiedig, i gynnwys darpariaeth ffordd gyswllt ar dir rhwng ffordd yr A48 a Llantwit Major Road, y Bont-faen (rhifau cais 01/00826/out a 02/01617/out). **Penderfyniad: Cytunwyd y dylid gwrthod y ddwy apêl.**

- Apêl gynllunio gan Gryphon Corporation ar gyfer drws mynediad allanol newydd ac apêl am ganiatâd adeiladu rhestredig ar gyfer drws mynediad allanol newydd a mur mewnol newydd yn yr Adain Ganolog, Plasty Trawsgoed, Aberystwyth.
  Penderfyniad: Cytunwyd ar y ddwy apêl yn unol â'r amodau a'r argymhellion a nodir yn Adroddiad yr Arolygydd.

PPC 2004-2

- Cais cynllunio a chais am ganiatâd henebion cofrestredig gan Gyngor Sir Caerdydd a alwyd i mewn i ddatblygu canolfan ymwelwyr newydd arfaethedig yng Nghastell Caerdydd. **Penderfyniad: Cytunwyd ag Adroddiad yr Arolygydd y dylid gwrthod caniatâd.**

- Cais cynllunio a chais am ganiatâd henebion cofrestredig gan Gyngor Sir Caerdydd a alwyd i mewn i ddatblygu ty bwyta a siop newydd arfaethedig yng Nghastell Caerdydd. **Penderfyniad: Cytunwyd ag Adroddiad yr Arolygydd y dylid gwrthod caniatâd.**

- Datblygiad y Goron: datblygiad arfaethedig gan Wasanaeth y Llys i ddefnyddio Columbus House, Langstone, Casnewydd, Gwent fel canolfan i roi gwrandawiad i dribiwnlysoedd apelau mewnfudo awdurdodau a thribiwnlysoedd apelau pensiynau.
  Penderfyniad: Cytunwyd i roi caniatâd cynllunio cyn belled ag y cydymffurfir â'r amodau yn y llythyr penderfyniad sy'n ymwneud â'r gwasanaeth bysus mini, y cynllun trafnidiaeth a'r rhwystrau a darparu rhagor o arwyddion ffyrdd.

- Datblygiad y Goron: datblygiad arfaethedig Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau i Orsaf Gynorthwyol Gwylwyr y Glannau (gan ymgorffori Swyddfa Rheolwr y Sector) yn Llwyn Passat, Marina Penarth, Penarth. **Penderfyniad: Cytuno ag Adroddiad yr Arolygydd a gwrthod caniatâd.**

ATODIAD 2

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD
BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL 2003-04

Cyflwyniad

1. Mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddeunaw mis sydd i ddod.

Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac y mae'n cynnwys: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig, gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9, yn bennaf maent i: ddatblygu polisi; craffu ar y Gweinidog a chyrff perthnasol; a chraffu ar y ddeddfwriaeth.

Nodau

4. Gan fod gan y Pwyllgor gylch gwaith mor eang, bydd yn datblygu dull strategol i'w waith gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd rhwng pynciau'r portffolio yn ogystal â'r cyfrifoldebau.

Blaenoriaethau

5. Blaenoriaethau y Pwyllgor am y cyfnod i ddod yw:

- *Datblygu polisi* (Rheol Sefydlog 9.7(i)) – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu testunau o'r meysydd polisi canlynol:

  - Agweddau cynllunio ar dai fforddiadwy a chymunedau cynaliadawy yng nghefn gwlad;
  - Hynt y gwaith o gwrdd â thargedau 2003-04 y strategaeth gwastraff *Yn Gall Gyda Gwastraff;*
  - Amgylchedd y môr.

- *Craffu ar waith y Gweinidog* (Rheol Sefydlog 9.7(ii)) – bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor bob tair wythnos ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu datblygiadau yn y meysydd canlynol, ac o bosib yn archwilio un neu ddau destun mewn dyfnder:

  - cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ac effaith hynny ar hyfywedd marchnadoedd da byw;
  - gwaredu anifeiliaid marw;

- materion cynllunio sy'n gysylltiedig â lleoli mastiau ffonau symudol;
- tiwberciwlosis mewn gwartheg;
- trefniadau diogelu rhag llifogydd;
- y polisi ar organebau a addaswyd yn enetig;
- y prosiect ail-gynllunio coedwigoedd;
- y strategaeth bysgodfeydd.

- *Craffu ar gyrff perthnasol* (Rheol Sefydlog 9.7 (iii)) – bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a chyrff perthnasol eraill mewn perthynas a'u gweithgareddau ym mhortffolio yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Yn hytrach na chraffu ar eu perfformiad yn erbyn eu holl dargedau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar agweddau penodol o waith y cyrff perthnasol, neu ar weithredu ar y cyd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynghori ar adolygiadau pum mlynedd, neu eraill, y cyrff cyhoeddus.

- *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* (Rheolau Sefydlog 9.8(i) a 22) – bydd y Gweinidog yn adrodd yn rheolaidd ar is-ddeddfwriaeth arfaethedig a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a gynigir. Bydd y Pwyllgor yn dewis craffu ar eitemau o blith yr eitemau o ddeddfwriaeth lle mae cyfle i'r Pwyllgor ddylanwadu arnynt. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Lywydd, fel bo'n briodol.

- *Eitemau eraill (*Rheol Sefydlog 9.8) – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

  - *cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (ii)) – bydd y Pwyllgor yn mynd ati yn ystod tymor yr haf i nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

  - *cwynion* (Rheolau Sefydlog 9.8(iii) ac 21*)* - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato o dan Rheol Sefydlog 21;

  - *penodiadau cyhoeddus* (Rheolau Sefydlog 9.8(iv) ac 20) – bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

  - *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond hoffai ofyn i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sy'n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor.

Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau ar y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff gwaith y Pwyllgor ei arwain gan y canlynol:

- *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Dros yr ystod o faterion o fewn ei bortffolio, bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gyfle cyfartal;

- *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – drwy ei drafodaethau bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i daro cydbwysedd rhwng twf economaidd a chymdeithasol a chadwraeth amgylcheddol, a hynny drwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd argymhellion adolygiad polisi y Pwyllgor yn adlewyrchu'r egwyddor hon. Gan fod cydlynu datblygu cynaliadwy yn rhan o gyfrifoldebau'r Gweinidog, bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â gwaith datblygu polisi neu graffu manwl yn y maes hwn.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
12 Mehefin 2003